

Hysbysiad Hwylus

Cyfes Lles yng Nghymru: Diwygio budd-dal tai

Medi 2011

Cyflwyniad

Yng [Nghyllideb mis Mehefin 2010](#), cyflwynodd Llywodraeth y DU gynigion ar gyfer newidiadau eang i'r system budd-dal tai.¹ Bwriad y cynigion yw arafu'r cynnydd sylweddol yng nghostau budd-dal tai, ac yn arbennig i leihau'r cyfanswm a gaiff ei dalu i bobl sy'n llwyddo i gael llety yn y sector rhentu preifat.²

Mae **budd-dal tai** yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd i helpu tenantiaid yn y sector rhentu preifat a'r sector rhentu cymdeithasol i dalu eu rhent. Gweinyddir budd-dal tai gan awdurdodau lleol, ond **nid yw'n fater datganoledig**.

Mae'r **lwfans tai lleol** yn ffordd o gyfrifo faint y dylai pobl sydd yn hawlio budd-dal tai fod â hawl iddo, ond dim ond os ydynt yn byw yn y sector rhentu preifat ac wedi cychwyn hawliadau newydd ar ôl mis Ebrill 2008. *Nid yw'r lwfans tai lleol yn fudd-dal sydd ar wahân i fudd-dal tai.*

Newidiadau o fis Ebrill 2011 ymlaen

- **Newidiadau i'r sail ar gyfer gosod cyfraddau lwfans tai lleol o'r canolrif i'r 30 canradd o renti marchnad lleol;**

Roedd y lwfans tai lleol o fewn ardaloedd marchnad rhentu eang³ yn arfer cael ei osod yn ôl canolrif y data ar rent a gyflawnwyd ac a gasglwyd gan swyddogion rhent; cafodd hwn ei ostwng i'r 30 canradd o'r cyfraddau a gyflawnwyd o fis Ebrill 2011 ymlaen. Mae hyn yn golygu, mewn egwyddor, y bydd gan y bobl sy'n hawlio budd-dal fynediad at 30 y cant isaf y farchnad rentu, yn hytrach na'r 50 y cant isaf. Yn wreiddiol, bwriadwyd cyflwyno'r newid hwn ym mis Hydref 2011, ond fe'i cyflwynwyd ym mis Ebrill (ar gyfer pobl sy'n hawlio am y tro cyntaf yn unig).

- **Pennu'r uchafswm ar gyfer cyfraddau wythnosol lwfans tai lleol yn £250 (ar gyfer cartref sydd ag un ystafell wely), £290 (ar gyfer cartref sydd â dwy ystafell wely),**

¹ Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) [June 2010 Budget](#), t48

² Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, [Changes to Housing Benefit announced in the June 2010 Budget](#), Mawrth 2011

³ Gosodir ardaloedd marchnad rhentu eang gan y Gwasanaeth Rhent i ddiffinio ardaloedd lle mae gwahanol eiddo sydd o faint tebyg yn codi rhent tebyg

£340 (ar gyfer cartref sydd â thair ystafell wely) a £400 (ar gyfer cartref sydd â phedair ystafell wely neu fwy - nid yw'r gyfradd pum ystafell wely ar gael bellach);

Bydd cyflwyno uchafsymiau cenedlaethol ar gyfraddau lwfans tai lleol sy'n daladwy o fewn ardaloedd marchnad rhentu eang yn cael yr effaith fwyaf ar bobl sy'n hawlio budd-dal tai ac yn byw mewn rhai rhannau penodol o Lundain.⁴ Mae Adran Gwaith a Phensiynau'r DU yn amcangyfrif bydd yr uchafswm yn effeithio ar tua 200 o bobl ledled Cymru.⁵

- **Dileu'r ddarpariaeth a oedd yn galluogi pobl sy'n hawlio budd-dal tai i gadw uchafswm o £15 yr wythnos pan fo eu rhent yn is na'r gyfradd lwfans tai lleol;**

Mewn rhai achosion, caniatwyd i bobl a oedd yn hawlio budd-dal tai a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r cyfraddau lwfans tai lleol gadw hyd at £15 yr wythnos os oedd eu rhent yn is na'u budd-dal tai. Roedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi cynnig dileu'r ddarpariaeth hon, ac mae Llywodraeth Glymblaid y DU yn bwriadu bwrw ymlaen i roi'r polisi hwn ar waith.

- **Darparu lwfans ystafell wely ychwanegol ar gyfer gofalwr pan fo'r angen am ofal dros nos wedi'i brofi;**

Fel rhan o gyhoeddiadau [Cyllideb mis Mehefin 2010](#), cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai ystafell wely ychwanegol yn cael ei chaniatáu o fewn y meini prawf ar gyfer maint a ddefnyddir i asesu hawliadau budd-dal tai yn y sector rhentu preifat pan fo gan berson anabl, neu berson sydd â chyflwr iechyd hir dymor, angen a brofwyd am ofal dros nos ac y darperir y gofal hwnnw gan ofalwr nad yw'n byw gyda'r person hwnnw. Bydd y mesur hwn yn costio £15 miliwn y flwyddyn, a bydd yn effeithio ar bawb sy'n hawlio budd-dal tai yn y sector preifat, ac nid yn unig y bobl hynny sy'n cael budd-dal a gyfrifir gan y lwfans tai lleol.⁶

- **Uwchraddio gostyngiadau pobl nad ydynt yn ddibynnol i adlewyrchu newidiadau mewn rhent ers 2001-02, yn flynyddol ar yr un sail.**

Person nad yw'n ddibynnol yw rhywun sydd fel arfer yn byw gyda'r person sy'n hawlio budd-dal tai, fel mab neu ferch sy'n oedolyn, perthynas neu ffrind. Caiff swm ei dynnu oddi ar gyfanswm y budd-dal tai y caiff yr unigolyn ei hawlio, a bydd hyn yn wir pa un ai yw'r person nad yw'n ddibynnol yn talu hwn i'r person sy'n hawlio ai peidio. Bydd ôl-ddyddio'r uwchraddio ar gyfer 2001-02 yn arwain at gynnydd sylweddol yn y gostyngiadau oddi ar fudd-dal tai y bydd yn rhaid i'r bobl sy'n hawlio, yn eu tro, eu hadfer wrth y bobl nad ydynt yn ddibynnol arnynt neu incwm cartref arall.

Newidadau o fis Ionawr 2012 ymlaen

- **Cynyddu'r oed y bydd y cyfradd llety a rennir yn gymwys iddo o 25 i 35.**

Mae'r gyfradd llety a rennir (neu'r hyn a alwyd yn gyfradd ystafell a rennir yn y gorffennol)

⁴ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2011) [Housing Benefit: implications of the June 2010 Budget and Spending Review](#)

⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Impact of changes to Housing Benefit](#) (adroddiad a thablau data) tabl 12 [fel ar 14/10/10]

⁶ Trysorlys EM (2010) [June 2010 Budget](#), t40

yn cyfyngu'r budd-dal tai y caiff person o dan 25 ei hawlio i gyfartaledd y rhent a godir am ystafell mewn tŷ a rennir. Fel rhan o'r [adolygiad o wariant](#) ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r graddfa llety a rennir yn cael ei ymestyn i fod yn gymwys i bobl o dan 35 oed sy'n hawlio budd-dal tai o fis Ebrill 2012 ymlaen⁷ (newidiwyd hyn i fis Ionawr 2012).

Newidadau o fis Ebrill 2013 ymlaen

- **Pennu uchafswm o £500 yr wythnos ar gyfer budd-dal tai;**⁸

Bydd yr uchafswm yn gweithredu drwy leihau cyfanswm y budd-dal tai y caiff person hawlio pan fo cyfanswm y budd-dal y cânt ei hawlio (ac eithrio budd-daliadau penodol) yn fwy na £500 yr wythnos i un teulu. Bydd uchafswm o £350 yr wythnos yn gymwys i bobl sengl.

- **Uwchraddio cyfraddau lwfans tai lleol yn seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu;**⁹

Y sail resymegol y tu ôl i'r polisi hwn yw lleihau'r gwariant ar fudd-dal tai a symud tuag at gynllun budd-dal tai mwy teg a chynaliadwy a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r anghymhellion i weithio sy'n rhan gynhenid o'r system.¹⁰

Mae'r cam hwn yn gyson â chynllun Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr, yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu, i uwchraddio budd-dal nawdd cymdeithasol eraill.

- **Cyfyngu ar fudd-dal tai tenantiaid cymdeithasol oed gwaith sy'n byw mewn cartref sy'n fwy o faint na'r hyn y mae maint eu teuluoedd yn ei gyfiawnhau i gyfradd ranbarthol safonol ar gyfer cartref o'r maint priodol.**¹¹

Ar hyn o bryd, cyfyngir ar gyfanswm y budd-dal tai y caiff pobl sy'n byw mewn llety rhentu **preifat** ei hawlio os penderfynir eu bod yn byw mewn llety sy'n fwy na mae maint eu teulu yn ei gyfiawnhau. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys i denantiaid sy'n hawlio budd-dal tai tra fyddant yn byw mewn llety rhentu **cymdeithasol**. Sail resymegol Llywodraeth y DU ar gyfer estyn cyfyngiadau maint i bobl oed gwaith sy'n hawlio budd-dal tai yn y sector rhentu cymdeithasol yw i reoli gwariant cynyddol ar fudd-dal tai; annog symudedd o fewn y sector rhentu cymdeithasol; cryfhau cymhellion i weithio a defnyddio'r tai cymdeithasol sydd ar gael mewn ffordd fwy effeithlon.¹²

Deddfwriaeth

Nodir y newidiadau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2011 yn [Rheoliadau Budd-dal Tai \(Diwygio\) 2010 \(SI 2010/2835\)](#) a [Gorchymyn Diwygio Swyddogion Rhent \(Swyddogaethau Budd-dal Tai\) 2010 \(SI 2010/2836\)](#).

⁷ Trysorlys EM (2010) [Comprehensive Spending Review](#), t69

⁸ Trysorlys EM (2010) [Comprehensive Spending Review](#), t28

⁹ Trysorlys EM (2010) [June 2010 Budget](#), t17

¹⁰ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) [Impact Assessment on Housing Benefit - uprating Local Housing Allowance rates by CPI](#), paragraff 3

¹¹ Trysorlys EM (2010) [June 2010 Budget](#), t48

¹² Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) [Under-occupation of social housing Impact Assessment](#), paragraff 11

Nodir y mesurau sy'n effeithio ar denantiaid tai cymdeithasol sy'n tan-feddiannu ac uwchraddio cyfraddau lwfans tai lleol gan y mynegai prisiau defnyddwyr, ynghyd â'r uchafswm a bennwyd ar gyfer budd-dal tai, ym [Mil Senedd y DU ynghylch Diwygio Lles](#) sy'n symud drwy Senedd y DU.

Caiff y mesur sy'n effeithio ar y gyfradd llety a rennir ei weithredu gan reoliadau - mae'r rhain yn destun [ymgyngoriad](#) gan bwyllgor cynghori Tŷ'r Cyffredin ar nawdd cymdeithasol¹³ ar hyn o bryd.

Newidiadau pellach

Cafwyd cynnig yng Nghyllideb Mehefin 2010 i dalu 10 y cant yn llai o fudd-dal tai i bobl sy'n hawlio budd-dal ceiswyr gwaith a fu'n ddi-waith ers dros 12 mis ond ni wnaeth y cynnig hwn ymddangos ym [Mil Senedd y DU ynghylch Diwygio Lles](#) pan osodwyd y Bil hwnnw gerbron Senedd y DU ym mis Chwefror 2011.¹⁴

Fel ymateb i'r costau trosiannol posibl y bydd rhai pobl yn eu hwynebu o ganlyniad i'r holl newidiadau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi darparu ar gyfer gwariant cynyddol ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn o £10 miliwn yn 2011-12 a £40 miliwn y flwyddyn o hynny ymlaen.¹⁵ Cânt eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

Cyhoeddwyd yng Nghyllideb Mawrth 2011 y byddai'r newidiadau i'r lwfans tai lleol a gyflwynir ym mis Ebrill 2011 yn effeithio ar bobl sy'n hawlio budd-dal tai am y tro cyntaf yn unig - ni fydd y newidiadau yn effeithio ar y bobl a oedd eisoes yn hawlio budd-dal tai tan fis Ionawr 2012.¹⁶

Ymateb i'r newidiadau

Mae pwyllgor cynghori Tŷ'r Cyffredin ar nawdd cymdeithasol¹⁷ a phwyllgor dethol gwaith a phensiynau Tŷ'r Cyffredin¹⁸ wedi cynnal ymarferion ymgynghori mewn perthynas â'r newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010. Fel ymateb i ganfyddiadau'r pwyllgorau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU:

- y bydd oedi o ran gweithredu newidiadau i'r lwfans tai mewn cysylltiad â phobl sydd eisoes yn hawlio budd-dal tai;
- hyblygrwydd ychwanegol i dalu'r lwfans tai lleol i landlordiaid yn uniongyrchol os byddant yn gostwng eu rhent;
- arian ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn; ac

¹³ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2011) [Housing Benefit: Shared Accommodation Rate](#)

¹⁴ Trysorlys EM (2011) [Budget 2011](#), t55, paragraff 2.61

¹⁵ [Dadl Tŷ'r Cyffredin 30 Tachwedd 2010 c72WS](#)

¹⁶ Trysorlys EM (2011) [Budget 2011](#), t55, paragraff 2.62

¹⁷ Pwyllgor Cynghori Tŷ'r Cyffredin ar Nawdd Cymdeithasol, [The Housing Benefit \(Amendment\) Regulations 2010 \(S.I. No. 2010/2835\)](#), Tachwedd 2010

¹⁸ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, [Changes to Housing Benefit announced in the June 2010 Budget](#), Mawrth 2011

- ymchwil annibynnol i effaith y newidiadau – dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno erbyn 2013, cyn dechrau'r broses o newid i gredyd cyffredinol.¹⁹

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar fudd-dal, cysylltwch â **Hannah Johnson** (hannah.johnson@cymru.gov.uk) o'r Gwasanaeth Ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau a ganlyn, cliciwch ddwywaith ar y lincs.

- Y Gwasanaeth Ymchwil, [Lles a Chymru](#) (i'w gyhoeddi cyn hir)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2011) [Housing Benefit: implications of the June 2010 Budget and Spending Review](#);

Gallwch weld rhestr lawn o'n hysbysiadau hwylus [yma](#).

Rhif ymholiad: 11/1010 Hannah Johnson

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk

¹⁹ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, [Changes to Housing Benefit announced in the June 2010 Budget – Government Response](#), paragraffau 78, 113 a 167, Mawrth 2011